

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 70/2012  
DYDDIAD CYHOEDDI 8/11/2022

# Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn Effeithio ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Nodau ac Amcanion

- 1.1 Nod yr ymchwil hwn yw meithrin dealltwriaeth o'r systemau treth sy'n wynebu'r economi ymwelwyr yn gyffredinol, a'r sector llety yn benodol, yng Nghymru ac economïau ymwelwyr tebyg (a allai fod yn gystadleuwyr).
- 1.2 Prif amcanion yr adroddiad hwn yw:
  - (1) Nodi economïau ymwelwyr priodol sy'n gymharol â Chymru;
  - (2) Casglu ac adrodd ar fanylion y prif drethi sy'n effeithio ar y sectorau twristiaeth yng Nghymru a'r economïau cymharol;
  - (3) Cyfrifo rhai lletemau treth enghreifftiol ar gyfer amrywiol gyflenwyr gwasanaethau twristiaeth, er mwyn amlygu'r gwahaniaethau amlycaf rhwng y cyfundrefnau treth yng Nghymru a'r cymaryddion.

### 2. Nodi economïau ymwelwyr cymharol

- 2.1 Nodwyd economïau ymwelwyr cymaradwy yn y DG, UE ac EFTA trwy dadansoddiadau clwstwr ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol NUTS3.<sup>1,2</sup> Seiliwyd y ddadansoddiadau hyn ar ddata yn

<sup>1</sup> Mae dadansoddiad clwstwr yn techneg ystadegol â ddefnyddiwyd yn aml er mwyn dethol gwrthrychau (economïau ymwelwyr yn yr achos hwn) i grwpiau sy'n cynnwys gwrthrychau cyffelyb.

<sup>2</sup> System hierarchaidd ar gyfer rhannu tiriogaeth economaidd yr UE, EFTA a'r DU at ddiben casglu a dadansoddi data ystadegol yw'r NUTS (Nomenclature des unités territoriales statistiques).

ymwneud â gweithgarwch twristiaeth cyffredinol, nodweddion y galw am dwristiaeth, nodweddion y diwydiant a nodweddion y cyrchfan.<sup>3</sup>

- 2.2 Nodwyd Denmarc fel yr economi ymwelwyr tebycaf i Gymru gan y dadansoddiad clwstwr genedlaethol, wedi dilyn gan Ffrainc, Norwy, Sweden, yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg.
- 2.3 Mae'r clystyrau a nodwyd gan y dadansoddiad NUTS3 wedi eu dangos yn Ffigwr 1.
- 2.4 Wrth gyfuno'r dadansoddiadau clwstwr, cafodd Denmarc, Sweden, yr Iseldiroedd, Norwy a Ffrainc eu adnabod fel cymaryddion agos i sector twristiaeth Cymru. Cafodd grŵp arall o wledydd eu adnabod fel cymaryddion pellach, sef Lwcsembwrg, Estonia, Latfia, yr Alban, Lloegr ar Iwerddon.


---

<sup>3</sup> Mae'r holl data yn yr adroddiad yn gyfeirio at 2019, oni bai nodir fel arall, er mwyn osgoi effeithiau eithriadol y pandemig Cofid-19 ar y sector twristiaeth ac ar drethiant.

## Ffigwr 1:

### Clystyrau NUTS3

- Clwstwr Caerdydd
- Clwstwr y Cymoedd
- Clwstwr Gweddill Cymru
- Clystyrau eraill
- Heb ei glustnodi



Ffynhonell: cyfrifon yr awduron

### 3. Cymharu Systemau Treth ac Amcangyfrif Lletemau Treth Enghreifftiol

- 3.1 Mae'r systemau treth a ystyriwyd yn gymhleth.<sup>4</sup> O ganlyniad, mae gwneud cymariaethau rhwng codau treth gwahanol wledydd yn anfanwl, ond mae'r adroddiad hwn wedi ceisio gwneud hynny mewn modd diduedd a gwrthrychol.<sup>5</sup> Casglwyd data ar gyfraddau treth, trothwyon, lwfansau, eithriadau a nodweddion amrywiol eraill, a'u triogli lle'n bosibl gyda ffynonellau eraill.<sup>6</sup>
- 3.2 Mae trethi twristiaeth-benodol yn gymharol anghyffredin yn yr economïau cymharol. O'r deg cyfundrefn dreth a ystyriwyd, dim ond dwy (Ffrainc a'r Iseldiroedd) sydd ag ardoll ymwelwyr.<sup>7</sup> Mae pump o'r cymaryddion (Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden a'r DU) yn casglu treth ymadael teithwyr awyr.
- 3.3 Mae busnesau twristiaeth yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, ac mae cystadleurwydd sector twristiaeth gwlad yn debygol o gael ei effeithio gan yr ystod lawn o drethi a godir.
- 3.4 Mae'r adroddiad llawn yn rhoi manylion sylweddol am y cyfraddau, trothwyon, lwfansau ac eithriadau ar gyfer treth incwm personol (PIT), cyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC), treth incwm corfforaethol (CIT), treth ar werth (TAW), a threthi eiddo, yn ogystal â'r trethi penodol sy'n ymwneud â thwristiaeth, ar draws yr holl economïau cymharol.
- 3.5 Er mwyn tynnu sylw at nodweddion amlycaf trefn drethi Cymru o gymharu â'r economïau cymharol agos, mae'r adroddiad yn amcangyfrif lletemau treth ar gyfer tair enghraifft.<sup>89</sup>
- 3.6 Mae Tabl 1 yn dangos amcangyfrif o'r lletem dreth ar gyfer perchennog-reolwr hunangyflogedig gwesty bach neu lety gwely a brecwast gydag incwm blyneddol o £25,000 (neu gyfwerth arian lleol).

---

<sup>4</sup> Er enghraifft, yn 2009, roedd côd treth y DG yn cynnwys 11,520 o dudalennau (Accountingweb 2009).

<sup>5</sup> Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar brif gyfraddau treth ac yn diystyru manylion sy'n amodol ar amgylchiadau penodol unigolyn neu fusnes. E.e., er bod credydau treth cynhwysol yn cael eu hystyried, nid yw'r rheini sy'n amodol ar statws teuluol.

<sup>6</sup> Roedd y ffynonellau hyn yn cynnwys PWC, Deloitte, yr OECD, y Comisiwn Ewropeaidd, ac EY.

<sup>7</sup> Mae'n werth nodi bod ardollau ymwelwyr yn bodoli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd mewn deunaw o wledydd yr UE-27.

<sup>8</sup> Lletem dreth yw'r gwahaniaeth rhwng y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu a'r gwerth y mae cynhyrchwyr yn ei gael (ar ôl treth) o drafodiad. Mae'r dreth i bob pwrpas yn gyrru "lletem" rhwng y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu a'r pris y mae cynhyrchwyr yn ei dderbyn am gynnyrch neu wasanaeth.

<sup>9</sup> Dim ond dau o'r enghreifftiau a nodir yn y crynodeb hwn. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y trydydd enghraifft (busnes mawr, corfforedig gyda chadwyn o westai) yn weddol debyg i enghraifft 2.

**Tabl 1: Enghraifft 1 - Perchennog-reolwr microfenter<sup>10</sup>**

|                              | <b>Cymru</b> | <b>Denmarc</b> | <b>Ffrainc</b> | <b>Iseldiroedd</b> | <b>Norwy</b> | <b>Sweden</b> |
|------------------------------|--------------|----------------|----------------|--------------------|--------------|---------------|
| <b>SSC</b>                   | 6.5%         | 0.5%           | 19.5%          | 22.5%              | 9.3%         | 5.6%          |
| <b>PIT</b>                   | 11.8%        | 21.5%          | 7.1%           | 0.0%               | 16.0%        | 22.2%         |
| <b>CIT</b>                   | 0.0%         | 0.0%           | 0.0%           | 0.0%               | 0.0%         | 0.0%          |
| <b>Treth eiddo</b>           | 0.0%         | 3.1%           | 0.0%           | 0.3%               | 0.5%         | 2.5%          |
| <b>TAW</b>                   | 0.0%         | 23.5%          | 9.6%           | 4.6%               | 7.9%         | 8.1%          |
| <b>Ardoll ymwelwyr</b>       | 0.0%         | 0.0%           | 4.0%           | 4.3%               | 0.0%         | 0.0%          |
| <b>CYFANSWM lletem dreth</b> | 18.3%        | 48.6%          | 40.2%          | 31.7%              | 33.7%        | 38.3%         |

- 3.7 Mae Tabl 2 yn dangos amcangyfrif y lletem dreth ar gyfer gwesty 50 ystafell wely, gyda bar a chyfleusterau arlwy, yn rhedeg fel busnes corfforedig sy'n cynhyrchu £200,000 (neu arian lleol cyfatebol) o elw cyfrifyddu cyn CIT, sydd â £400,000 o gostau staff a £400,000 o gostau nad ydynt yn gostau staff y gellir adennill TAW-wrth-brynu arnynt.

**Tabl 2: Enghraifft 2 - Busnes corfforedig bach i ganolig<sup>10</sup>**


|                        | <b>Cymru</b> | <b>Denmarc</b> | <b>Ffrainc</b> | <b>Iseldiroedd</b> | <b>Norwy</b> | <b>Sweden</b> |
|------------------------|--------------|----------------|----------------|--------------------|--------------|---------------|
| <b>CIT</b>             | 3.1%         | 3.7%           | 4.4%           | 2.7%               | 4.0%         | 3.6%          |
| <b>Treth eiddo</b>     | 1.7%         | 1.3%           | 1.2%           | 0.1%               | 0.2%         | 0.8%          |
| <b>SSC y Cyflogwr</b>  | 2.4%         | 1.3%           | 13.1%          | 6.9%               | 4.7%         | 10.6%         |
| <b>TAW</b>             | 14.2%        | 13.3%          | 6.0%           | 3.0%               | 4.2%         | 3.9%          |
| <b>Ardoll ymwelwyr</b> | 0.0%         | 0.0%           | 1.3%           | 1.4%               | 0.0%         | 0.0%          |
| <b>Lletem dreth</b>    | 21.4%        | 19.5%          | 26.0%          | 14.1%              | 13.1%        | 19.0%         |

<sup>10</sup> Bwriad yr amcangyfrifon yn Nhablau 1 a 2 yw dangos yr egwyddorion bras sy'n sail i'r systemau treth ym mhob gwlad ac nid cyfrifiad diffiniol o rwymedigaethau treth. Nid yw'r amcangyfrifon yn y ddau enghraifft yn uniongyrchol gymaradwy, yn rhannol oherwydd nad yw'r rhai yn enghraifft 2 yn cynnwys trethi personol.

## 4. Canfyddiadau Allweddol

- 4.1 Mae economi dwristiaeth Cymru fwyaf tebyg i Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden. Digwydd bod mai gwledydd sydd â model llywodraethu mwy cymdeithasol democrataidd na'r DG yw'r rhain. Mae ganddynt refeniw treth cyffredinol llawer uwch fel cyfran o CDG (gweler Ffigur 2), a lefelau llawer uwch o wariant cyhoeddus.
- 4.2 Mae tirwedd drethi Cymru yn debycach i'r cymaryddion pellaf a nodir yn y dadansoddiadau clwstwr – Lloegr, Estonia, Iwerddon, Latfia, Lwcsembwrg a'r Alban. Mae'r rhain i gyd yn wledydd y mae gan wladwriaethau draddodiad o ddilyn model economaidd mwy *laissez-faire*, gyda threthi a gwariant cyhoeddus is.

Ffigur 2:



- 4.3 Y nodwedd amlycaf o drethi llafur (PIT a SSC) yng Nghymru o gymharu â'r economïau cymharol yw eu graddoliad ar ben isaf y dosbarthiad incwm. Mae hyn yn arbennig o nodedig i'r sector twristiaeth, lle mae cyfran uchel o swyddi ar gyflog isel ymhlith gweithwyr a'r hunangyflogedig.
- 4.4 Mae cyfraddau CIT yng Nghymru tua phen isaf y grŵp o gymaryddion agos, ond nid o gryn dipyn.
- 4.5 Mae'r trothwy uchel ar gyfer cofrestru TAW yn y DG yn unigryw ymhlith y grŵp o gymaryddion agos. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw TAW yn daladwy ar werth ychwanegol nifer fawr o microfentrau yn sector twristiaeth Cymru. Ar y llaw arall, ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi'u cofrestru, mae'r gyfradd TAW yng Nghymru ar lety yn sylweddol uwch nag yn unrhyw un o'r economïau cymharol ac eithrio Denmarc.
- 4.6 Mae trethi eiddo ar fusnesau yng Nghymru (ar ffurf ardrethi annomestig) yn gyffredinol uchel iawn o gymharu'n rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r cynllun Cymorth Ardrethi i Fusnesau Bach yn eithrio llawer o ficrofusnesau rhag ardrethi annomestig ac yn lleihau'r ardrethi sy'n daladwy i lawer

o rai eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y sector twristiaeth yng Nghymru lle, fel y nodwyd yn flaenorol, mae nifer helaeth o ficrofentrau.

- 4.7 Dim ond mewn dwy o'r economïau cymharol y mae ardollau ymwelwyr yn bodoli, sef Ffrainc a'r Iseldiroedd. Mae'r cyfraddau yn y ddwy wlad yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar leoliad a math o lety. Yn enghreifftiau 1 a 2, roedd yr adroddiad hwn yn rhagdybio cyfradd fesul person y noson o €1, sy'n agos at y cyfartaledd a godir yn y ddwy wlad. Ar y lefel hon, mae ardoll ymwelwyr yn cael effaith fwy cymedrol ar fusnesau na threthi incwm (personol neu gorfforaethol), SSC neu TAW. Fodd bynnag, nid yw'r effaith yn ansylweddol. Ym mhob un o'r enghreifftiau a ystyriwyd, mae'r ardoll ymwelwyr yn cyfrif am rhwng 5% a 12% o'r lletem dreth gyffredinol a nodwyd.

Dr. Rhys ap Gwilym, Bangor University  
Dr. Sara Closs-Davies, Bangor University  
Dr. Edward Jones, Bangor University  
Dr. Helen Rogers, Bangor University

Adroddiad ymchwil llawn: ap Gwilym, Closs-Davies, Jones and Rogers (2022). *Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn Effeithio ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru,

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm yr Ardoll Ymwelwyr

Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

[ArdollYmwelwyr@llyw.cymru](mailto:ArdollYmwelwyr@llyw.cymru)